

# Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016

**2015/52. Presennol:** Cyngorwyr Toland (yn y gadair), Jenkins a Swanson. Bu'r clerc yn gweinyddu.

**53. Ymddiheuriadau:** Cyngorwyr Goodman, Griffiths, Hustings a Thomas. Cyngorydd Sir ap Gwynn

**54. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol:** Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2016.

**55. Datganiadau o ddiddordeb:**  
Dim

**56. Materion yn codi:**

- i. Nid oedd newyddion ar y palmant. Penderfynwyd gohirio'r brotest nes bod ateb gan y Gweinidog.
- ii. Adroddwyd bod cam un o'r prosiect i greu lle chwarae wedi gorffen. Mae'r llwybrau wedi'u cwblhau. Penderfynwyd awdurdodi taliad o hyd at £2000 ar y prosiect. Nid oedd newyddion ar y brydles. Adroddwyd bod y prosiect wedi derbyn £150 gan Gronfa 10K y *Cambrian News*.
- iii. Nodwyd llythyr gan y Gweinidog am y lôn i'r orsaf. Mae cwyn swyddogol am ddiffyg mynediad i'r anabl ar y gweill gan Mrs L. Hughes. Bydd yn mynd i Network Rail, Mark Williams a'r Comisiwn Cydraddoldeb.
- iv. Adroddwyd bod arian ar gyfer diffibriliwr wedi mynd i Galonnau Cymru. Dylai gyrraedd mewn tua chwe wythnos.
- v. Nodwyd bod casglu sbwriel yn parhau.
- vi. Nodwyd nad oedd cynnydd parthed cynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned.
- vii. Adroddwyd nad oedd y cyfarfod â Simon Williams, Tai Ceredigion, ynglŷn ag ymweld ag eiddo gwag yn y gymuned wedi digwydd gan fod yr eiddo gwag i gyd wedi'i werthu erbyn hyn.
- viii. Adroddwyd nad oedd y Clerc wedi llwyddo i gysylltu â'r swyddog sy'n gyfrifol am fanciau ailgylchu eto. Bydd yn gofyn i Gyngorydd Sir ap Gwynn am ei gyfeiriad e-bost.

**57. Cyllid:**

- i. Penderfynwyd ystyried ceisiadau gan Cruse Ceredigion ac Urdd Gobaith Cymru am gymorth ariannol yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2016.
- ii. Penderfynwyd gwneud y taliad canlynol: £44 (aelodaeth o Un Llais Cymru)
- iii. Nodwyd bod y taliad canlynol wedi'i dderbyn: £12.50 (cae - rhent)

**58. Gohebiaeth a Chyfathrebu:**

- i. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Un Llais Cymru:
  - a. Cod Ymddygiad diwygiedig: bydd hwn yn ymddangos ar wefan y Cyngor;
  - b. Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: nodwyd.
  - c. Pwyllgor Ardal Ceredigion: nodwyd.
- ii. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:

- a. Adolygiad o gludiant: roedd y Cyngor yn gwrthwynebu cynlluniau i dorri cludiant i ddisgyblion gydag anghenion arbennig a disgyblion mewn addysg ôl-16. Maent yn cosbi pobl ifainc nad ydynt yn gallu dewis lle maent yn byw na lle maent yn mynd i'r ysgol.
- b. Nodwyd y cynllun mabwysiadu llwybr.
- iii. Penderfynwyd rhoi medal yr oedd y Cyngor wedi'i derbyn i goffâu pen-blwydd y Frenhines yn archif y Cyngor.
- iv. Bydd Cynghorydd Swanson yn llenwi holiadur Macmillan.
- v. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Mawrth 2016). Awgrymwyd y dylid cynnwys stori am y diffibriliwr yn y cylchgrawn pan fydd yn barod.
- vi. Penderfynwyd cofrestru i glywed am ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol.
- vii. Penderfynwyd gofyn am ragor o wybodaeth am Gymru Effeithlon ac i ofyn am sgwrs i'r gymuned.
- viii. Nodwyd *The Clerk* (Mawrth 2016)

**59. Unrhyw Fater Arall:**

- i) Nodwyd bod Adran Cynllunio Cyngor Sir Ceredigion wedi bod mewn cysylltiad â pherchnogion Pandy am y datblygiad yno.
- ii) Nodwyd llythyron gan Advice UK a'r eglwys.

**60. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 11 Mai 2016